**ATODIAD 4**

## AMCANION Y CONSORTIWM A MESURYDDION CYRHAEDDIAD

**Prif Nod y Consortiwm : Sefydlu Gwynedd ac Ynys Môn fel ardal o ragoraieth ar gyfer dysgu ôl-16**

**Amcanion: Gwelir Amcanion y Consortiwm isod.**

**Mesuryddion : Mae'r Bartneriaeth Ddysgu wedi adnabod y set isod o Fesuryddion i'w trafod ymhellach a'u cytuno, ynghyd â thargedau, gan y Consortiwm pan yn weithredol.**

| AMCAN | MESUR |
|---|---|
| 1. Lleihau cystadleuaeth a dyblygu gan ddod o hyd i ddulliau effeithlon o gael canlyniadau gwell i bobl ifanc. | 1. Nifer y cyrsiau ar y cyd sydd ar gael i ddysgwyr<br>2. Nifer y cyrsiau anhyfyw<br>3. Costau addysgu y dysgwr y cwrs<br>4. Arolygon o fodlonrwydd dysgwyr |
| 2. Cynnal lefelau uchel o gyrhaeddiad ymysg dysgwyr yn y cyfnod ôl-16 | 1. Cyfraddau cyrhaeddiad wedi'u seilio ar ganlyniadau arholiadau allanol mewn cyrsiau academaidd ar draws sefydliadau<br>2. Cyfraddau cyrhaeddiad wedi'u seilio ar ganlyniadau arholiadau mewn cyrsiau galwedigaethol ar draws sefydliadau |
| 3. Ehangu'r dewis i ddysgwyr yn y cyfnod ôl-16 ac ymateb i anghenion y farchnad lafur leol | 1 % y cyrsiau sy'n briodol i'r farchnad lafur leol sydd ar gael yn ardal y Bartneriaeth<br>2 % y bobl ifanc sy'n cael mynediad at Fagloriaeth Cymru<br>3 Cysondeb rhwng yr arlwy cyrsiau yn yr ardal ac anghenion cyfredol, a hefyd â sectorau twf uchel a/neu werth uchel a |

| AMCAN | MESUR |
|---|---|
| | ragwelir yn yr economi leol<br>4 Arolygon o fusnesau ac o fodlonrwydd cyflogwyr |
| 4. Ehangu cyfranogiad dysgwyr yn y cyfnod ôl-16 ac ymateb i'r agenda ar dlodi ac amddifadedd | 1 Cyfraddau cyfranogi dysgwyr yn y cyfnod ôl-16<br>2. Lefel y cyfleoedd Dysgu Seiliedig ar Sgiliau<br>3. Mesur o'r rheini sy'n gadael addysg â sgiliau hanfodol<br>4. Cyfraddau cadw yn y cyfnod trosglwyddo<br>1. Lefel y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn 17 oed |
| 5. Ymestyn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a hybu a chryfhau'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu | 1. Y nifer sy'n cymryd cyrsiau ac achrediadau cyfrwng Cymraeg, rhai academaidd a galwedigaethol<br>2. Nifer y cyrsiau ac achrediadau STEM cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael a'r nifer sy'n eu cymryd |